



big pit
national
coal
museum
amgueddfa
lofaol
cymru



geiriau glo

Taflenni gweithgareddau i'w defnyddio
ynghyd â'r deunydd clyweledol

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



rhagair

nodyn i'r tiwtor

Mae'r gweithgareddau yma yn ychwanegol i'r rhai yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Fe'u hysgrifennwyd yn arbennig i'w defnyddio ynghyd â'r deunydd clyweledol yn ôl yn y dosbarth. Maent yn seiliedig ar rai gweithgareddau yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*, ac mae'n werth nodi eu bod yn aml yn adolygu'r un eirfa a'r gweithgareddau a geir yno. Gellir adnabod y gweithgareddau wrth enw'r uned gysylltiedig ar y DVD.

Anelir y deunydd clyweledol at ddysgwyr lefel Mynediad a Sylfaen. Dylai tiwtoriaid sicrhau bod dysgwyr yn gyfarwydd â'r eirfa cyn mynd at y gweithgareddau a sicrhau hefyd bod lefel y gwaith cymesur â gallu'r myfyriwr.

cynnwys

mynediad

Ceir 3 gweithgaredd ar y lefel yma, sy'n gysylltiedig â gweithgareddau Mynediad 2 ii), Mynediad 3 a Mynediad 4 iii) yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Nid oes deunydd clyweledol na gweithgaredd cysylltiedig i fynd gydag uned Mynediad 1 yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*.

Beth mae e'n wneud?

Tudalen 4

Yn gysylltiedig ag uned **Mynediad 2 ii)** yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Y bwriad yma yw dysgu 5 brawddeg yn seiliedig ar 5 offeryn sy'n cael ei ddefnyddio gan golier.

Cyn pob brawddeg mae llais yn gofyn "beth mae'r colier yn ei wneud?". Mae'r frawddeg o ateb yn cael ei ddweud ddwywaith, wedyn gofynnir y cwestiwn unwaith yn rhagor gyda'r ateb yn dilyn, cyn symud at yr eitem nesaf. Gall cwestiynau a) a b) gael eu hateb wrth wrando, neu wedyn drwy gofio. Yn a) mae'r pump brawddeg olaf yn ailadrodd y pump cyntaf, ond bod geiriau gwahanol ar goll. Maent yn yr un drefn â'r DVD. Dylid gofyn i fyfyrwyr gwblhau eitem c) ar ôl gwrandao ar y darn.

Pwy dych chi?

Tudalen 5

Yn gysylltiedig ag uned **Mynediad 3** yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Y bwriad yma yw dysgu 5 brawddeg cychwynnol wrth ddod i 'nabod person a dysgu sut i ymateb i'r cwestiynau yn bersonol.

Holir yr un 5 cwestiwn i'r 6 pherson sy'n gweithio yn Big Pit, fesul person. Dylid annog myfyrwyr i ganolbwyntio ar y *cwestiynau* sy'n cael eu gofyn er mwyn gallu cyflawni'r gweithgareddau ar y daflen wedyn, ond gallwch hefyd brofi ar gof yr *atebion* a roddir ar y DVD, drwy drafod a holi cwestiynau am yr unigolion ar lafar.

rhagair

Ble mae e?

Tudalen 6

Yn gysylltiedig ag uned **Mynediad 4 iii)** yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Pwrpas y gweithgareddau yma yw dysgu 6 arddodiad ynghyd ag enwau cyffredin syml.

Ar y DVD gofynnir yn gyntaf i fyfyrwyr ail-adrodd 6 brawddeg, fesul un, ar ôl y llais. Wedyn, gofynnir iddynt ddefnyddio'r brawddegau eto, fel ateb i gwestiynau. Mae cwestiwn, wedyn seibiant i'r myfyrwyr ateb, wedyn ail-adroddir eto. Yn ogystal â hyn, mae'r gweithgareddau ar y daflen i'w gwneud ar ôl gwrando ar y darn.

sylyfaen

Ceir 3 gweithgaredd ar y lefel yma, sy'n gysylltiedig yn fras iawn â gweithgareddau Sylfaen 1, Sylfaen 2 a Sylfaen 3 yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Nid oes deunydd clyweledol na gweithgaredd cysylltiedig yma i fynd ag uned Sylfaen 4 yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*.

Y safle

Tudalen 7

Yn gysylltiedig ag uned **Sylfaen 1** yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Mae'r ddau beth yn seiliedig ar y nod o ddod i adnabod safle'r amgueddfa a rhai adeiladau yno. Nid yw'r gweithgareddau yn debyg.

Yma clywir gwybodaeth am 10 man wahanol ar daith o'r amgueddfa. Mae'r wybodaeth ym mhob man gwahanol yn cael ei dweud ddwywaith. Dylai gweithgaredd a) gael ei wneud wrth wrando ar y DVD. Gall gweithgaredd b) gael ei wneud wrth wrando ar y darn neu ar ôl ei glywed. Argymhellir y dylai myfyrwyr wrando ar y wybodaeth yn unig wrth chwarae'r darn am y tro cyntaf, wedyn ceisio darganfod yr atebion wrth chwarae'r darn am yr ail dro. Mae'r rhestr yng ngweithgaredd a) yn dilyn trefn trafod y geiriau.

Y lamp, y bocs a'r Jac Dŵr?

Tudalen 8

Yn gysylltiedig ag uned **Sylfaen 2** yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*. Dylid nodi fod y paragraff i'w gwblhau yng ngweithgaredd a) i'w weld yn gyfan yn y *pecyn adnoddau i diwtoriaid*, ar dudalen 6 o Sylfaen. Dylid cyflwyno unrhyw eirfa newydd cyn ceisio'r gweithgareddau yma.

Mae gweithgaredd a) i'w wneud wrth wrando ar y DVD. Mae b) a c) i'w gwneud wedyn. Mae'r tri darn o destun yn dod un ar ôl y llall ar y DVD, wedyn mae'r tri yn cael eu hail-adrodd eto.

Siarad â Ceri Thompson

Tudalen 10

Yn gysylltiedig ag uned **Sylfaen 3** gyda'r nod o gasglu gwybodaeth am hanes rhai o'r bobl oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant glo. Nid yw'r gweithgareddau yn debyg.

Dylid cwblhau gweithgaredd a) wrth wrando ar y DVD, a chwblhau gweithgaredd b) wedyn. Mae'r cyfweiliad yn rhedeg drwodd deirgwaith, felly gall myfyrwyr wrando yn unig y tro cyntaf.

beth mae e'n wneud? / *what is he doing?*

Y nod ydy dysgu 5 brawddeg yn seiliedig ar yr offer a ddefnyddir gan golier Gwrandewch ar y 5 brawddeg sy'n cael eu hail-adrodd a cheisiwch ateb y cwestiynau.
[The aim is to learn 5 sentences based on 5 implements used by colliers.
Listen to the 5 sentences repeated then try to answer the questions.]

a) Ar ôl gwylio'r clip rhwch gynnig ar gwblhau'r brawddegau yma ar lafar.
[Having watched the video, try completing these sentences orally.]

- i) Mae'r colier yn _____ nyten â sbaner.
- ii) Mae'r glöwr yn torri glo â _____
- ii) Mae'r glöwr yn _____ coed â llif fwa.
- iv) Mae'r colier yn codi glô â _____
- v) Mae'r colier yn bwrw postyn â _____
- vi) Mae'r colier yn troi nyten â _____
- vii) Mae'r glöwr yn _____ glo â mandrel.
- viii) Mae'r glöwr yn llifo coed â _____
- ix) Mae'r colier yn _____ glo â rhaw.
- x) Mae'r colier yn _____ postyn â gordd.

b) Beth ydy'r Gymraeg am...?

[Can you remember the Welsh word for the following?]

a sledge hammer	to saw
a post	to turn
coal	a miner
to lift	a bow saw
to cut	a shovel
to knock	a pick

c) Gan weithio mewn parau, un i feimio'r weithred a'r llall i ddweud beth sy'n digwydd. Gwnewch hyn am yn ail.
[Working in pairs, one mimes the action and the other says what is happening. Do this alternately.]

pwy dych chi? / who are you?

Byddwch yn clywed ymwelwyr yn holi 6 aelod o staff. Eich tasg ydy cofio'r cwestiynau a'r atebion. Gallwch wedyn holi aelodau'r dosbarth.

[You will hear visitors asking questions to 6 members of staff. Your task will be to remember the questions and answers. You can then question fellow class members yourself.]

- a) Holwch eich partner sy'n gorfod ateb ac yna eich holi chi. Wedyn symudwch ymlaen at bartner newydd.

[Ask your partner these questions. He should answer. Then reverse the process and move on to a new partner.]

Who are you?

Where do you live?

From where do you come?

Do you have children?

Where did you go to school?

- b) Ffurfiwch y cwestiynau sy'n briodol i'r atebion yma.

[What questions would elicit these replies?]

Oes, mae brawd da fi.

Es i'r ysgol yn Aberdâr.

Dw i'n byw yn Llanelli.

Mae un mab ac un ferch da fi.

Tom ydw i.

Dw i'n dod o Aberaeron.

ble mae e? / where is it?

Bwriad y gweithgaredd ydy dysgu sut i ddod o hyd i rai o'r pethau y byddwch yn eu gweld yn y gegin. Gwrandewch yn ofalus ar y 6 brawddeg am y tro cyntaf i weld os gallwch ateb y cwestiynau cyn i'r llais eu hail-adrodd. Yna ceisiwch ateb y cwestiynau isod.

[The aim of this activity is to learn how to locate some of the objects you will see in the kitchen. Listen to the 6 sentences carefully the first time and see if you can answer the questions before the voice the says them a second time. Then see if you can answer the questions below.]

- a) Gan ddefnyddio'r arddodiaid isod, sut fydddech chi'n dweud...?

[Use the prepositions below to work out how you would say...?]

on the oven

above the fireplace

under the clock

beside the fire

in front of the mirror

behind the clock

wrth ochr y tân

uwchben y lle tân

ar y ffwrn

tu ôl i'r cloc

dan y cloc

o flaen y drych

- b) Gan ddefnyddio'r arddodiaid uchod, faint o'r brawddegau a glywsoch chi ar y fideo allwch chi eu cofio?

[Using these locating words (prepositions), how many sentences that you heard on the video can you remember?]

- c) Gan gydweithio â phartner, gofynnwch a dywedwch lle mae'r gwrthrychau yma o gwmpas y lle tân. Newidiwch eich partner yn rheolaidd.

[Working with a partner, ask and answer about where the following objects are around the fireplace. Change partners regularly.]

the mirror

the clock

the saucepan

the cauldron

the oven

er enghraifft / for example: **Ble mae'r bath? Mae'r bath wrth ochr y tân.**

y safle / the site

Byddwch yn cael eich tywys o gwmpas Big Pit. Gwrandewch ar beth sy'n cael ei ddweud ddwywaith. Wrth i chi wrando am yr ail dro, ceisiwch ateb y cwestiynau ar y daflen waith.

[You will be taken on a tour around the Big Pit complex. Listen twice to what is said. As you listen the second time, try to answer the questions on the work sheet.]

- a) Gwrandewch ar y tywysydd a thiciwch unrhyw air yn y rhestr a glywch.

Rhybudd – dydy rhai o'r geiriau ddim i'w clywed!

[Listen to what the guide says and tick any of the following words that you hear.]

Caution – some of the words listed are not used by the guide!

y dderbynfa	gwthio
aros	o dan ddaear
gostwng	codi
trwsio	cerbydau
peiriannau	gwyntyll
gwylwyr	dillad
sebon	tref

- b) Beth ddywedodd y tywysydd am y canlynol? Dewisiwch o'r geiriau isod.
[What Welsh words does the guide use for the following? Choose from the words below.]

Welcome!	today
the waiting room	underground
up and down	to repair
machinery	gases
at the beginning	tea
soap	town

o dan ddaear		codi ac yn gostwng		nwyon		tref					
sebon		croeso		te		peiriannau		trwsio		yma	
yr ystafell aros				ar ddechrau							

y lamp, y bocs bwyd a'r jac dŵr / *the lamp, the foodbox and the water jack*

Cyn i chi glywed y 3 chyflwyniad byr, bydd eich tiwtor wedi cyflwyno unrhyw eirfa newydd i chi. Gwrandewch ar bob darn y tro cyntaf i sicrhau eich bod yn ei ddeall. Wrth i chi wrando'r ail dro, dylech geisio ateb cwestiwn a), yna b) ac c).

[Before you hear these 3 mini presentations, your tutor will have introduced any new vocabulary. Listen to each section the first time to ensure that you understand. The second time, you should attempt to answer question a), and then b) and c) afterwards.]

- a) Wrth wrando ar y darn am y lamp, llanwch y bylchau.

[As you listen to the section about the lamp, fill in the missing words.]

Y Lamp

Mae rhaid cael _____ i weithio. I ddechrau roedd glowyr yn _____ canhwyllau neu lampau â fflam noeth. Roedd y _____ yn beryglus iawn, yn enwedig pan oedd nwy yn bresennol.

Y person _____ i ddyfeisio lamp ddiogel oedd Syr Humphrey Davy yn 1812. Roedd y lampau yma yn _____ paraffin ond erbyn 1913 roedden nhw'n defnyddio lampau _____ yn ein pyllau glo. Fodd bynnag, doedd llawer o lowyr ddim yn eu _____ nhw achos eu bod nhw yn drwm ac yn dwym iawn.

- b) Ar ôl gwrandao ar Y Bocs Bwyd, parwch y ddwy restr.

[After listening to Y Bocs Bwyd, try to match these two lists:]

wyth awr	bread and cheese
dan ddaear	coal mine
gwraig y glöwr	8 hours
pwll glo	to want food
byw	underground
bara a chaws	the collier's wife
eisiau bwyd	important
yn bwysig	to live

y lamp, y bocs bwyd a'r jac dŵr / the lamp, the foodbox and the water jack

- c) Yn y gorffennol roedd glöwr yn defnyddio Jac Dŵr i dorri syched. Ar ôl gwrandio ar y darn, trafodwch gyda'ch partner beth dych chi'n ei ddefnyddio heddiw i dorri syched yn y gwaith.

[In the past, miners used a water jack to quench their thirst. After listening to the section, discuss with your partner in Welsh what you use today to quench your thirst at work.]

siarad â ceri thompson / *speaking to ceri thompson*

Gwrandewch ar y sgwrs deirgwaith. Allwch chi ateb pob cwestiwn yn a)? Yna, gweithiwch mewn parau i ateb b). Newidiwch bartner ar ôl gofyn y 3 chwestiwn. *[Listen to the conversation three times. Can you answer all the questions in a)? Afterwards, work in pairs to answer b). Change your partner after asking each other the 3 questions.]*

- a) Wrth wrando ar y sgwrs â Ceri Thompson, nodwch yr hyn a glywsoch.
[As you listen to the interview with Ceri Thompson, log the information required.]

Ceri Thompson	
Geni? Ble?	
Geni? Pryd?	
Byw nawr?	
Ysgol?	
Gwaith cyntaf?	
Pa waith?	
Amser dan ddaear?	
Mwynhau – beth?	
Cymryd rhan mewn streic?	
Hyd y streic?	
Gweithio yma yn Big Pit – am faint?	

- b) Dysgwch sut i ofyn y cwestiynau yma ac yna holi 3 aelod o'ch grŵp / aelodau staff / siaradwyr Cymraeg. Nodwch eu hatebion.
[Learn to ask the following questions and then interview 3 members of your group / staff members / Welsh speakers you know. Log their replies.]

Who are you?

Where were you born?

Where do you live now?

	1	2	3
Enw			
Geni			
Byw			